

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Lleu

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Bro Lleu yn ysgol hapus, gyfeillgar a chynhwysol sy'n rhoi pwyslais cryf ar barchu pob aelod o'r gymuned. Mae ei gweledigaeth o roi'r cyfle gorau i bob disgybl yn treiddio drwy holl weithgarwch yr ysgol. O ganlyniad, mae agweddau'r disgyblion at eu dysgu yn gadarn a'u hymddygiad yn ardderchog.

Mae lles y disgyblion a'r staff yn cael blaenoriaeth amlwg yn yr ysgol. Mae gan staff adnabyddiaeth gadarn o anghenion pob disgybl ac maent yn olrhain eu cynnydd yn fanwl iawn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol o'u mannau cychwyn.

Mae staff yn cynnwys safbwyntiau'r disgyblion a'r rhieni, ynghyd â'r gymuned leol, wrth ddatblygu cwricwlwm diddorol i'r disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio'n gryf ar ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol, gyda chyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fedrus. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn mwynhau eu gwersi ac yn barod iawn i drafod eu gwaith.

Mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus ac yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i'r disgyblion er mwyn cynnal ac ymestyn eu dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn rhan annatod o wella eu gwaith. Ar y cyfan, mae safonau addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Yn yr arfer orau, mae staff yn cynllunio gweithgareddau ar draws y cwricwlwm sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fod yn ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol.

Agwedd nodedig o waith yr ysgol yw'r modd mae'r pennaeth wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro a gwerthuso'r dysgu a'r ddarpariaeth. Mae'r staff cyfan wedi ymrwymo'n llwyr i'r broses sy'n golygu eu bod yn gweithio mewn hinsawdd o groesawu sialens a her i ddatblygu a gwella eu harferion yn barhaus. O ganlyniad, mae diwylliant cadarnhaol o hunanwella yn bodoli yn yr ysgol.

# Argymhellion

**A1 Datblygu cyfleoedd i’r disgyblion ieuengaf gryfhau eu medrau creadigol ac annibynnol tu fewn a thu allan y dosbarth**

## Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu diwylliant ysgol fel sefydliad sy’n hunanwella, i’w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Lleu |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 199 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 150 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 21 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 22.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 33.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 78.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 21/01/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 24/04/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/06/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.